**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 19eg Rhagfyr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Cyflwyno'r Gwasanaethau** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i Gynllun Gweithredu 3edd Flwyddyn drafft y Cynllun Integredig Rheoli Risg at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus. |

1. **<u>CYFLWYNIAD</u>**

1.1 Yn Ebrill 2004, cyhoeddodd yr Awdurdod Tan ei Gynllun Integredig Rheoli Risg o'r enw Atal, Gwarchod, Ymateb.

1.2 Er mwyn cadw momentwm y drefn o adnabod a lleihau risgiau i'n cymunedau, lluniwyd cynllun gweithredu trydedd flwyddyn wedi trafodaethau yng Ngweithgor y Cynllun Risg.

1.3 Mae Arweiniad eto i ddod, ac mae wrthi'n cael ei lunio gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Arweiniad hwn yn debygol o effeithio ar drefn Cynllunio Integredig Rheoli Risg ar gyfer y flwyddyn 2007/08.

1.4 Cyfarfu Panel Gweithredol yr Awdurdod ar 13eg Rhagfyr i drafod y cynllun gweithredu 3edd flwyddyn drafft ac i gymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd gan Weithgor y Cynllun Risg ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Mae'r newidiadau dan sylw wedi eu hymgorffori yn y cynllun gweithredu 3edd flwyddyn drafft, y mae copi ynghlwm i'r adroddiad hwn, ac a gyflwynir i'r Awdurdod gyda'r bwriad o geisio cymeradwyaeth yr aelodau i ymgynghori arno.

2. **<u>TREFN Y CYNLLUN RISG</u>**

2.1 Mae'n bwysig nodi na ddaeth unrhyw arweiniad penodol ar Gynlluniau Risg gan Lywodraeth y Cynulliad (gweler 1.3 uchod). Mae'r Cynulliad wedi nodi bod yr adolygiad ar yr Arweiniad ar fin cael ei gyhoeddi.

2.2 Dyma'r meysydd gwaith arfaethedig yng nghynllun gweithredu'r 3edd flwyddyn:-

- Rhoi'r Adolygiad o'r Peiriannau Arbennig ar waith
- Codi tâl am Systemau Larwm Awtomatig
- Treialu Cyd-Ymateb
- Diogelwch Tan Cymunedol ar gyfer eiddo mewn ardaloedd gwledig
- System Lleoli Awtomatig
- Rhaglen Hygyrch ar gyfer Monitro Perfformiad
- Darpariaeth Rheolwr Gweithredol

Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi'r diweddaraf am hynt y Cynllun Risg gwreiddiol, a'r cynllun gweithredu 2il flwyddyn y llynedd.

2. **TREFN Y CYNLLUN RISG** *(parhad)*

2.3 Mae'r Cynllun Risg drafft sy'n dilyn yn benllanw gwaith dwys rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion dros y 3 mis diwethaf.

3. **ARGYMHELLION**

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 O ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 13[eg] Rhagfyr 2005, bod yr aelodau'n cymeradwyo'r cynllun gweithredu 3[edd] flwyddyn diwygiedig, "Cadw'r Momentwm", at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r ymatebion i'w derbyn erbyn 1[af] Mawrth 2006; a,

3.3 bod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i Weithgor y Cynllun Risg/Panel Gweithredol fel bo ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw newidiadau fydd eu hangen i gynllun gweithredu 3[edd] flwyddyn cyn ei gyflwyno gerbron cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth 2006 ar gyfer ei fabwysiadu .